# Examination of the Cardiff Replacement Local Development Plan

**Inspectors:** Gareth Hall BSc (Hons) DipTP MRTPI and Anthony Thickett BA(Hons) BTP MRTPI

**Programme Officer:** Kerry Trueman

**Email:** kerry.trueman@cardiff.gov.uk

| **Cardiff LDP Examination**<br><br>**Guide to Digital Hearings** | **Archwiliad CDLl Caerdydd**<br><br>**Canllaw i Wrandawiadau Digidol** |
|---|---|
| The digital sessions will be held on Microsoft Teams with all participants, including the Inspector, the Programme Officer (PO), the Council team, participants and observers logging in on line.<br><br>Links to the digital sessions will be sent to all participants and also made available for other attendees on the individual Hearing Session webpages. These can be accessed from the Hearing Sessions webpage. If you have any difficulties in accessing the meeting links, please contact the programme officer at Kerry.trueman@cardiff.gov.uk.<br><br>Digital hearings operate in much the same way as in person hearings but with some differences to ensure they run smoothly. All participants will be given a chance to address the points raised by the Inspectors.<br><br>As we will be working from screens, which can be intensive and tiring, there will be regular breaks, to be every 90 minutes or so.<br><br>Please keep your microphone turned off until you are invited to speak and switch it off again when you have finished speaking.<br><br>The Microsoft Teams platform provides a 'raised hand function', by which you will be able to indicate that you would like to speak. Observers at hearings are not able to speak and should | Cynhelir y sesiynau digidol ar Microsoft Teams gyda'r holl gyfranogwyr, gan gynnwys yr Arolygydd, Swyddog y Rhaglen (SRh), tîm y Cyngor, cyfranogwyr ac arsylwyr yn mewngofnodi ar-lein.<br><br>Bydd dolenni i'r sesiynau digidol yn cael eu hanfon at yr holl gyfranogwyr ac ar gael i fynychwyr eraill ar dudalennau gwe y Sesiwn Gwrandawiad unigol. Gellir cyrchu'r rhain o'r dudalen we Sesiynau Gwrandawiad. Os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth gyrchu dolenni'r cyfarfodydd, cysylltwch â swyddog y rhaglen yn Kerry.trueman@caerdydd.gov.uk.<br><br>Mae gwrandawiadau digidol yn gweithredu yn yr un modd â gwrandawiadau wyneb yn wyneb i raddau helaeth ond gyda rhai gwahaniaethau i sicrhau eu bod yn rhedeg yn ddidrafferth. Bydd pob cyfranogwr yn cael cyfle i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan yr Arolygwyr.<br><br>Gan y byddwn yn gweithio o sgriniau, sy'n gallu bod yn ddwys ac yn flinderus, bydd seibiannau rheolaidd, tua pob 90 munud.<br><br>Cadwch eich meicroffon wedi'i ddiffodd nes eich bod yn cael eich gwahodd i siarad a'i ddiffodd eto pan fyddwch wedi gorffen siarad.<br><br>Mae platfform Microsoft Teams yn darparu 'swyddogaeth codi llaw', lle byddwch chi'n gallu nodi yr hoffech siarad. Nid yw arsylwyr mewn |

| | |
|---|---|
| ensure that their microphones and cameras are kept turned off throughout the session. Please could you also ensure that if you have a telephone near you, it is turned to silent or divert.<br><br>If you lose connection, in the first instance we will adjourn, initially for 5 minutes. In that period, you should try and log back in, in the same way as you did before the event began.<br><br>If the problem persists, the adjournment may be longer and if it can't be resolved, we may need to adjourn to another day. Please keep the PO's contact details to hand so that you can keep them informed if you do have problems. | gwrandawiadau yn cael siarad a dylen nhw sicrhau bod eu meicroffonau a'u camerâu wedi eu diffodd drwy gydol y sesiwn. A wnewch chi sicrhau hefyd os oes gennych ffôn yn agos atoch, ei fod wedi ei droi'n dawel neu ei ddargyfeirio.<br><br>Os byddwch chi'n colli cysylltiad, byddwn yn gohirio yn y lle cyntaf, am 5 munud i ddechrau. Yn y cyfnod hwnnw, dylech geisio mewngofnodi eto, yn yr un modd ag y gwnaethoch cyn i'r digwyddiad ddechrau.<br><br>Os yw'r broblem yn parhau, gall y cyfnod gohirio fod yn hirach ac os na ellir ei datrys, efallai y bydd angen i ni ohirio i ddiwrnod arall. Cadwch fanylion cyswllt y SRh wrth law fel y gallwch eu hysbysu os cewch chi broblemau. |